

## Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych

Cofnodion y Cyfarfod  
a gynhaliwyd  
ddydd Mercher 14 Rhagfyr 2016  
yn  
Ystad Rhug, Corwen  
am 10:00 am

### Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol

Tim Faire  
Nicholas Lloyd  
Heather Fitzgerald  
Chris Marshall  
Joanne Hughes  
Cyng Martyn Holland  
Hilary Davies  
Kevin Slattery  
Max Grant  
John Buckley  
Kay Culhane  
Iona Pierce

### Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Hannah Arndt (Swyddog Mynediad) Ysg. y Fforwm  
Adrian Walls (Rheolwr Hawliau Tramwy)  
Howard Sutcliffe (Swyddog Cefn Gwlad)  
Helen Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden)

### Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sian Williams (Swyddog Mynediad)  
Caroline Turner (Swyddog Mapiau Diffiniol)  
Victoria Currie (Cydlynnydd Ardal y De)

Cafwyd ymddiheuriadau gan: -

Tony Proffit, Hugh Crosswood, Cyng Dave Cowans (CBSC), Dan Hurst, Jim Gaffney

### **1. Croeso**

Agorwyd y cyfarfod gan Howard Sutcliffe a groesawodd yr aelodau i gyfarfod cyntaf Fforwm Mynediad Lleol ar y cyd Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych. Dywedodd y bydd yn cymryd amser i gael y fforwm ar y cyd i weithio ac i'r aelodau ddod i adnabod ei gilydd. Mae'n awyddus i gael cyfarfodydd pleruser a chynhyrchiol gydag ymweliadau safle, delio ag ymgynghoriadau a materion sy'n gysylltiedig â mynediad. Mae HS yn edrych ymlaen at weithio ar draws ffiniau ac yn croesawu'r gydbartneriaeth hon gan nad yw Hawliau Tramwy yn stopio wrth ffiniau.

Nododd Hannah Arndt fod angen Cadeirydd ac Is Gadeirydd, byddai pleidlais yn cael ei chynnal yn ail gyfarfod y FfMLL yn y prynhawn.

Soniodd aelodau'r Fforwm yn fyr am eu cefndir, ac mae crynodeb o hyn ar gael yn y pecyn cyfeirio.

### **2. Cyflwyniad i'r ardal ddaearyddol sy'n dod o dan Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych**

Rhoddodd Adrian Walls gyflwniad ar Adnodd Mynediad Cefn Gwlad Sir Ddinbych. Rhoddodd wybodaeth am y rhwydwaith, asedau ar y llwybrau (camfeydd, gatiâu, arwyddion) a'r problemau. Dangosodd arwynebedd y fforwm mynediad newydd, gan nodi ei fod yn cynnwys rhan o Fryniau Clwyd ac Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Dyfrdwy ar yr ochr orllewinol a Dyffryn Conwy ar yr ochr ddwyreiniol. Bydd fforwm ar y cyd yn gallu edrych ar ardaloedd fel Hiraethog a Chlocaenog a bydd yn hwyluso gwaith traws ffiniol.

Nododd fod Mapiau Diffiniol Sir y Fflint, Sir Feirionnydd a Sir Ddinbych wedi cael eu hadolygu ar gyfer Map Diffiniol Clwyd. Daw'r Map Diffiniol mewn dwy adran - y map a'r datganiad. Mae'r tîm Hawliau Tramwy wedi bod yn digideiddio'r wybodaeth ac yn cysoni'r data i fapiau modern. Gwiriwyd pob un o'r llwybrau ceffylau a'r cilffyrdd, a chadarnhawyd 88% o'r wybodaeth am y llwybrau troed hyd yma. Mae cyfanswm o 1,343.6km o Hawliau Tramwy yn Sir Ddinbych.

Dywedodd Adrian Walls fod yna ddiffyg Hawliau Tramwy ar yr arfordir lle mae mwyafrif y boblogaeth yn byw. Soniodd hefyd fod 19km o'r llwybrau troed yn llwybrau cul-de-sac, sy'n ganran isel, ond, mae 34km o'r llwybrau ceffyl yn rhai cul-de-sac nad ydynt yn mynd i unman, sy'n ganran uchel o'r rhwydwaith sydd ar gael.

Crybwyllodd hefyd y ffaith fod yna wallau mapio ar y Map Diffiniol - nodwyd 784 o amryfuseddau, gellir cywiro 158 ohonynt heb orchymyn cyfreithiol, mae 129 angen gorchymyn cyfreithiol, nid yw 22 o'r llwybrau yn adlewyrchu'r datganiad, mae 28 wedi'u rhifo'n anghywir, nid yw 27 datganiad yn gywir mwyach, mae 161 o'r llwybrau yn gwrth-ddweud y dystiolaeth weledol neu ar y map i'r llwybr cywir ac mae 249 angen ymchwiliad. Byddai gwneud y gwaith hwn i gyd yn gofyn am £250,000, yn cynnwys cost 1200 hysbyseb yn y wasg. Mae hwn yn fater y mae angen i'r Llywodraeth ei ystyried er mwyn mabwysiadu ffordd fwy effeithiol o hysbysu am newidiadau.

Dywedodd Adrian Walls fod yna broses ar gyfer creu llwybrau newydd, hefyd mewn rhai amgylchiadau gellir cael llwybrau newydd drwy geisiadau cynllunio ayb.

Ceir 53km o lwybrau caniatool yn y sir, mae rhai o'r rhain o fewn tir mynediad agored, ac mae'r rhain yn gwneud cryn dipyn o wahaniaeth i ddefnyddwyr llwybrau ceffyl yn arbennig.

Rhoddodd Adrian grynodedb o gelfi'r llwybrau troed sy'n cynnwys arwyddion, pontydd, cwlferi a gatiâu. Mae gan yr Awdurdod drefniant i strimio'r llwybrau, ond mae hwn wedi'i dorri'n ôl i ddau doriad sydd yn cael eu gwneud yn hwyrach yn y flwyddyn oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb.

Dosbarthodd Sian Williams daflen am Hawliau Tramwy CBS Conwy. Nododd fod ardal orllewinol Conwy yn dod o dan Fforwm Mynediad Lleol Eryri. Mae gan y Sir ardaloedd trefol, fel Llandudno, sy'n cyferbynnu ag ardaloedd gwledig iawn, fel Hiraethog. Mae'r ystadegau ar y daflen yn cyfeirio at CBS Conwy i gyd. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys 1572km o lwybrau troed, 98km o lwybrau ceffyl, 21km o gilffyrdd cyfyngedig a 15 cilffordd, sy'n gwneud cyfanswm o 1706km. Mae'r Hawliau Tramwy wedi'u gwasgaru'n weddol gyson ar draws y Sir ond mae bylchau mewn rhai ardaloedd ucheldir. Mae 5800ha o fynediad agored wedi'i fapio o fewn

y Sir, y tu allan i ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Mae 23,000ha o Barc Cenedlaethol Eryri yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Eglurodd Sian y strwythur newydd ar gyfer delio â HT yn CBS Conwy. Rhannwyd yr Awdurdod yn dair ardal, Gorllewin, Dwyrain a De, at ddibenion rheoli ond nid oes Tîm HT pwrpasol gan fod adnoddau yn dynn.

Gofynnodd John Buckley sut mae'r gwaith yn cael ei flaenoriaethu. Dywedodd Adrian Wells fod gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i ymateb i Gynghorau Cymuned a hefyd i faterion ar lwybrau blaenoriaeth. Fel arfer caiff cwynion eu harchwilio a'u hasesu o fewn 3-4 wythnos, yna caiff yr eitem ei chofnodi a'i rhoi ar restr. Os nad yw wedi'i datrys erbyn diwedd y flwyddyn, mae'r eitem yn symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd mae aelodau o'r staff yn gweithio gyda thabled sy'n cofnodi problemau yn y maes. Hoffai Adrian Walls weld system lle mae pob llwybr troed yn cael cyfnod adolygu, yn gysylltiedig â graddfa flaenoriaeth, l y mwyaf pwysig, e.e. Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Mae tîrfeddianwyr fel arfer yn ddigon hapus i wneud y gwaith os ydynt yn cael citiau camfa.

Nododd Victoria Currie nad yw CBS Conwy yn blaenoriaethu o ran ffynhonnell y gŵyn.

Dywedodd Heather Fitzgerald nad oes gan rai aelodau Cynghorau Cymuned ddi-ddordeb mewn HT o reidrwydd. Roedd Adrian Walls yn cytuno fod rhai Cynghorau Cymuned yn fwy rhagweithiol nag eraill, ac mae tueddiad i weithio mewn partneriaeth â'r rheiny sy'n barod i weithio gyda'r Awdurdod. Mae Milltiroedd Cymunedol yn enghraifft dda o brosiectau sy'n cael eu gwneud mewn partneriaeth.

Nododd Hannah Arndt y gallai problemau gael eu hadrodd yn syth i'r Awdurdod ac nad oes raid i bobl fynd trwy'r Cynghorau Cymuned.

Dywedodd y Cyng Martyn Holland yr hoffai wybod faint o gwynion sy'n cael eu derbyn mewn blwyddyn ac ai pobl leol sydd yn eu gwneud. Mae ef yn teimlo fod nifer o'r cwynion yn ei ward yn dod o'r tu allan i'r Awdurdod.

#### PENDERFYNWYD

Fod Cyngor Sir Ddinbych a CBS Conwy i ddod ag unrhyw ffigyrau sydd ar gael am gwynion a gafwyd ynglŷn â HT i'r cyfarfod nesaf.

### **3. Cyflwyniad byr gan aelodau a oedd yn dymuno cael eu hystyried i swydd y Cadeirydd neu'r Is Gadeirydd**

Gofynnodd Max Grant ai 3 blynedd fyddai'r tymor, byddai'n fodlon sefyll os nad oedd unrhyw aelod arall yn dymuno sefyll fel Cadeirydd.

Dywedodd John Buckley y byddai yntau'n barod i sefyll fel Cadeirydd, ond nad oes ganddo brofiad blaenorol o gadeirio Fforwm Mynediad Agored.

Roedd Tim Faire hefyd yn fodlon sefyll fel Cadeirydd pe bai hynny o gymorth i'r Fforwm, bu'n Gadeirydd Pwyllgorau'r NFU a'i Gyngor Cymuned Lleol.

Dywedodd Howard Sutcliffe mai peth da fyddai dechrau gyda Chadeirydd newydd i'r fforwm newydd. Dywedodd Adrian Walls fod yna dîm cryf o swyddogion i gefnogi'r Cadeirydd. Nododd Victoria Currie fod y swyddogion yn ceisio gwneud gwaith y fforwm mor hwylus â phosibl.

Awgrymwyd Gwen Butler gan Iona Pierce. Atebodd Gwen Butler y byddai hi'n fodlon sefyll fel Is Gadeirydd.

#### **4. Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd, darparwyd blwch a phapurau pleidleisio**

Tynnodd Max Grant a John Buckley eu henwau yn ôl i fod yn Gadeirydd y Fforwm, felly ni chynhaliwyd pleidlais.

##### **PENDERFYNWYD**

Enwebwyd Tim Faire yn Gadeirydd y FfMLl gan y Cyng Martyn Holland ac fe'i heiliwyd gan Heather Fitzgerald, roedd pawb o blaid.

Enwebwyd Gwen Butler yn Is Gadeirydd gan Kay Culhane ac fe'i heiliwyd gan Iona Pearce, roedd pawb o blaid.